LEG-02-2003(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**
**COFNODION:**
**Dyddiad:** 21 Ionawr 2003
**Amser:** 9:30 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol |
| Rosemary Butler | (Llafur) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Pauline Jarman | (Plaid Cymru) |
| Ann Jones | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Rowlands | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Karen Sinclair

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi: LEG-01-2003(min)**
1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2003.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y cynhelir y seminar ar ddeddfwriaeth sylfaenol i holl Aelodau'r Cynulliad a'u hymchwilwyr am 13.00 - 13.30pm yfory yn Ystafelloedd Cynadledda A/B.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Pwyllgor Deddfau i ddau Aelod Llafur, sef Ann Jones a Karen Sinclair. Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau ohonynt am eu cyfraniad i waith y Pwyllgor ac atgoffodd y Pwyllgor yn fyr fod yn rhaid anfon llythyr ymddiswyddo byr wedi'i lofnodi at y Llywydd pan fydd aelod yn ymddiswyddo o Bwyllgor.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried**
**LC606 - Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003**
3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Caiff y rheoliadau eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Roedd y Cynghorwyr Cyfreithiol wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar ac wedi nodi nifer o bwyntiau sydd wedi'u hystyried yn y drafft terfynol.

3.3 Gwnaeth y Pwyllgor sylw y teimlent y dylid ei gofnodi yn yr adroddiad.

3.4 Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y sylw olaf yn adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol, sef bod y fersiynau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deddfau yn fersiynau anghywir cynharach. Fodd bynnag roedd yr Aelodau yn hapus gyda sicrwydd y Cadeirydd fod y

fersiwn gywir o'r Rheoliadau a gafwyd gan y Cynghorydd Cyfeithiol o'r blaen wedi'i chyflwyno'n briodol i holl Aelodau'r Pwyllgor.

3.5 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC606 (Adroddiad).

**LC607 - Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) 2003**
3.6 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Caiff y rheoliadau eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.7 Ar ôl ystyried adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol daeth yr Aelodau i'r casgliad fod materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i wallau drafftio yn ôl pob golwg sy'n ymwneud â'r teitl fel y'i pennwyd yn y ddarpariaeth enwi. Hefyd gan fod y Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth drosiannol, dylid cynnwys isadran (7) adran 118 wrth enwi pwerau. Gellid cywiro hwn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

3.8 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw hefyd y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.9 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC607 (Adroddiad).

**LC608 - Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 11)(Cymru) 2003**
3.10 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Caiff y rheoliadau eu gwneud o dan y Weithdrefn Gyflymach.

3.11 Ar ôl ystyried adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol daeth yr Aelodau i'r casgliad fod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae gwall drafftio yn ôl pob golwg yn erthygl 2(2) a gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig iddo. Gellid cywiro hwn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

3.12 Gwnaeth y Pwyllgor un sylw y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC608 (Adroddiad).

**LC609 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2003**
3.14 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Caiff y rheoliadau eu gwneud o dan y Weithdrefn Safonol.

3.15 Ar ôl ystyried adroddiad y Cynghorwyr Cyfreithiol daeth yr Aelodau i'r casgliad fod mater i'w godi o dan Reol Sefydlog 11.5. Mae'r Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gwall drafftio yn ôl pob golwg wrth fewnosod paragraff "(ID)" yn Rheoliad 9 o'r prif reoliadau. Gellid cywiro hwn drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

3.16 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw hefyd y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad ym marn y Pwyllgor.

3.17 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC609 (Adroddiad).

**LC605 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2003**
3.18 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaed y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.19 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau.

3.20 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC605 (Adroddiad).

**Eitem 4: Gohebiaeth y Pwyllgor**
**Llythyr oddi wrth Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau dyddiedig 10 Ionawr 2003**
**LC568 – Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflen Gais) (Diwygio) (Cymru) 2002**
**LC569 - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflenni a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2002**
**LC570 - Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2002**
4.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon ag ymateb y Gweinidog.

**Eitem 5: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1 Trosglwyddwyd dau bapur a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau, yr Undeb Ewropeaidd i'r Cadeirydd, sef "Opinion on A better division and definition of powers in the European Union" a "Opinion on the Simplification of the Union Instruments". Mynegwyd y farn y byddai'r rhain o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Clerc yn dosbarthu'r dogfennau hyn i Aelodau'r Pwyllgor. **Camau i'w cymryd: Y Clerc**

5.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 4 Chwefror 2003.